**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Iau, 1 Gorffennaf 2021 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Alan Pritchard, Cemlyn Jones, Richard Robinson, Meirwen Lloyd, Beca Brown, Haf Williams, Phil Roberts

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Iola Parry, Martin Jones

**Cyfieithydd:** Mr R J Roberts (Lingo)

**Aelodau o'r cyhoedd:** Steve & Becky Morris (Morris Build for Life Ltd), Dilwyn Parry Jones, Sophie, Catherine Jones

**834 I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod arbennig o'r cyngor a diolchodd i bawb am eu presenoldeb yn enwedig yr aelodau o'r cyhoedd roedd yn bresennol.

**835. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**836. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**837. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C21/0564/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais ar gyfer codi 4 tŷ fforddiadwy
**Asiant:** Mark Davies (Cambrian Planning and Development Ltd)
**Ymgeisydd:** Morris (Morris Build for Life)
**Cyfeiriad:** Tir Ger Glyntwrog Inn, Llanrug, Caernarfon, LL55 4AN
**Cyfeirnod Grid:** 254145.24, 363237.3
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol

a) Mae'r cais cynllunio yn gael ei gyflwyno fel cais i adeiladu 4 o dai 'fforddiadwy'. Nid oedd y cyngor yn glir o beth ydi diffiniad 'tai fforddiadwy'. Faint byddai'r tai yn gostio I'w prynu a fyddai hyn yn eu gwneud yn fforddiadwy ar gyfer pobl lleol.

b) Roedd y Cyngor yn bryderus byddai cymal yn cael ei roi ar unrhyw ganiatâd cynllunio arfaethedig e.e. a106 ond fel sydd yn digwydd ar ôl amser mae perchnogion yn gwneud cais I ddiddymu'r amod hwn o'r cais cynllunio

c) Priffyrdd – Nodwyd fod mynediad I'r tai ar y brif ffordd o Gaernarfon I Llanberis a'r effaith byddai cael mynediad I'r tai yn ei gael ar draffig lleol. Nodwyd Ymhellach fod 2 lecyn parcio ar gyfer pob eiddo fyddai yn golygu o leiaf 8 car.

d) Ysgol – Nodwyd mae'r ysgol gynradd yn barod dan ei sang gyda disgyblion. Byddai cynyddu mwy o blant I'r ysgol yn rhoi mwy o bwysa byth ar yr ysgol

e) Roedd y cyngor yn teimlo nad oedd digon o wybodaeth wedi ei ddarparu ar gyfer y trefniadau carffosiaeth felly byddai yn angenrheidiol cael mwy o wybodaeth am hyn cyn gallu cefnogi'r cais.

f) Barn pobl leol – Nodwyd mai mater i'r Pwyllgor Cynllunio oedd caniatáu neu wrthod y cais ond un o'r materion dylai ei ystyried ydi barn trigolion lleol. Mae'r Cyngor wedi gwrando ar farn trigolion lleol a'r fan ydi nad ydi preswylwyr sydd yn byw o gwmpas safle'r datblygiad eisiau gweld y datblygiad yn digwydd

b) **Rhif y Cais:** C21/0562/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais am estyniad un llawr i greu anecs gefn y tŷ annedd.
**Asiant:** Myfyr Jones (RELM Group Ltd)
**Ymgeisydd:** Mrs Alison Parry
**Cyfeiriad:** 9a Bro Rhythallt, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AU
**Cyfeirnod Grid:** 254436.76, 363490.63
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

Daeth y cyfarfod I ben am 20:30

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: